



Ysgol Pentreuchaf

66. Polisi Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd Eang

Mae Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd Eang yn derm sydd â diffiniadau amrywiol. Yma, mae plant a staff yr ysgol wedi mabwysiadu datganiad o fwriad syml gaiff ei ddeall gan blant ac oedolion.

Rydym yn teimlo bod Addysg Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd Eang yn bwysig yn ein hysgol ni oherwydd rydym eisiau gwybod mwy am bobl ym Mhrydain a thu hwnt, eu cefndiroedd diwylliannol gwahanol eu hieithoedd eu hunain, eu crefyddau a'u diwylliant (yn cynnwys agweddau fel cerddoriaeth, bwyd, llenyddiaeth ac arferion). Mae'r byd yn lle diddorol sy'n llawn pobl gwahanol - mae'n bwysig bod yn garedig wrth bawb sy'n rhan o'n byd a cheisio deall eu ffordd o fyw. Gobeithiwn godi ymwybyddiaeth pawb er mwyn anelu at ddangos parch a gallu cydfyw ag eraill mewn cymdeithas gytun.

Rydym hefyd eisiau gwybod sut mae pobl yn effeithio ar y byd a sut y gallwn ni wneud yn siwr ein bod yn gwarchod y byd i'r bobl sydd yn mynd i ddod ar ein hôl ni.

Nod

Hyrwyddo a gwerthfawrogi dimensiwn rhyngwladol yng nghwricwlwm yr ysgol ac ar gyfer profiadau ehangach y disgyblion. Paratoi y disgyblion er mwyn iddynt fedru gwarchod ein byd a byw yn gytun mewn byd newidiol, gyda hyder ynddynt eu hunain a pharch tuag at eraill.

Wrth lunio ein datganiad o fwriad rydym wedi rhoi ystyriaeth i

- ddiffiniad ACCAC yn y cyhoeddiad 'Canllawiau ar gyfer Addysg Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd Eang' (2002),
- i'r Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol ddiwygiedig (2008)
- ac i 'ADCDF Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer ysgolion' (2008).

Cydnabyddir Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd Eang' (DCDF) fel un o themâu'r Fframwaith ABaCh (2008). Mae'r ysgol yn cynllunio ar gyfer y maes trwy ein cynlluniau Daearyddiaeth, Addysg Grefyddol, ABaCh, Gwasanaethau Crefyddol, gweithgareddau amrywiol i gasglu at elusennau, Grwp Gwyrdd a.y.y.b.

Mae Addysg Datblygiad Cynaliadwy (ADC) yn galluogi disgyblion i ddatblygu'r wybodaeth, y gwerthoedd a'r sgiliau i gymryd rhan mewn penderfyniadau ynglŷn â'r ffordd rydym yn gwneud pethau, yn unigol a gyda'n gilydd, yn lleol ac yn fyd eang, fydd yn gwella ansawdd bywyd heb niweidio'r blaned i'r dyfodol.

Mae Addysg Dinasyddiaeth Fyd Eang (ADF) yn galluogi pobl i ddeall y ffactorau byd eang sy'n llunio'u bywydau ac i gywain gwybodaeth, profiadau, sgiliau a gwerthoedd fydd yn eu harfogi i gymryd rhan mewn penderfyniadau, yn lleol ac yn fyd eang, fydd yn hyrwyddo byd tecach a chynaliadwy.

Canllawiau

1. Mae angen unodi cyfleoedd ar gyfer datblygu'r dimensiwn Rhyngwladol trwy'r cwricwlwm cyfan. Mae materion byd-eang ac addysgu ynghylch datblygiad cynaliadwy yn rhan o'r cwricwlwm Daearyddiaeth ac ABaCh ac yn cael ei ddysgu i raddau amrywiol drwy feysydd eraill yn y cwricwlwm. Mae'r gwasanaethau hefyd yn aml yn cynnwys dimensiwn byd-eang.
2. Ceisio cysylltu â dinasyddion gwledydd eraill trwy gysylltiadau dosbarth, ymweliadau a rhoi sylw i gefndir plant o wledydd eraill sydd yn yr ysgol. Pan gyfyd cyfleoedd, byddwn yn croesawu ymwelwyr o bob rhan o'r gymdeithas, tras hiliol, crêd a.y.y.b. er mwyn iddynt gyflwyno gwybodaeth i'r plant am eu ffordd o fyw, a rhoi'r cyfle i'r plant eu holi e.e y ficer lleol, pobl Masnach Deg.
3. Darparu profiadau gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau i hyrwyddo dealltwriaeth o ddatblygiadau cyfredol, gan gynnwys cylchgronnau, papurau newydd, fideos, dvds, straeon a barddoniaeth addas, y rhyngwyd a.y.y.b.
4. Sicrhau gwell dealltwriaeth o gyflwr bywyd a phroblemau pobl mewn rhannau eraill o'r byd e.e. trwy gyswllt â phlentyn o India â noddwyd gan y plant.
5. Ceisio trefnu ymweliadau perthnasol. Mae hyn yn help i'r plant ddod i adnabod nodweddion sy'n debyg yn ogystal â gwahaniaethau.
6. Pan fydd plant o ddiwyllianau eraill yn dod i'r ysgol (neu plant wedi bod ar wyliau / ymweliad i le perthnasol) byddwn yn cynllunio gweithgareddau i gynnwys rhai o'r traddodiadau a cheisio annog trafodaeth.
7. Defnyddio digwyddiadau perthnasol byd-eang o'r newyddion i ysgogi trafodaethau.
8. Chwilio am gyfleoedd naturiol ar gyfer dysgu am gysylltiadau busnes ag Ewrop a'r byd ehangach lle bo hynny'n bosibl.
9. Mae Cyngor Ysgol effeithiol yn weithredol ac mae holl gymuned yr ysgol yn gwybod amdano ac yn ei adnabod. Mae'n gwneud penderfyniadau ac yn aml mae'n trafod materion cymdeithasol ac amgylcheddol byd-eang sy'n berthnasol i'r ysgol a'r gymuned leol. Trwy'r Cyngor Ysgol a'r holiaduron, mae'r plant yn cymryd rhan yn system hunan arfarnu'r ysgol.
10. Cynhelir rhaglen eang o addysg iechyd, gan gynnwys Addysg Rhyw, cyffuriau, ysgol iach ac iechyd a ffitrwyd.
11. Trwy gysylltiadau ac ymweliadau, addysgu'r plant am Fasnach Deg ac mae'r staff yn ceisio defnyddio nwyddau Masnach Deg.

12. Er mwyn addysgu ein disgyblion yn llwyddiannus mewn materion cynaliadwy a byd eang rydym yn cynllunio ac ymgorffori ADCDF i'r cwricwlwm a phob agwedd o fywyd yr ysgol sy'n cynnwys yr ethos, y drefniadaeth a'r rheolaeth. Rhaid i'r ysgol 'weithredu' yn ogystal ag 'addysgu'.
13. Cymerir agwedd gyfannol (holistig) tuag at addysg ein disgyblion gan sicrhau cyfleoedd lle gall pob pwnc gyfrannu.
14. Trwy weithredu'r dull hwn anelwn at sicrhau bod ein disgyblion yn gweld cysylltiadau cyson rhwng meysydd o ddiddordeb, pynciau cwricwlaidd a materion cyfoes fydd yn sicrhau perchnogaeth ar 'y darlun mawr' o'r byd ehangach.
15. Mae dysgu trwy brofiadau yn rhan greiddiol o'n hathroniaeth addysgu ac ni chyfyngir y profiadau hyn i'r ystafell ddosbarth.
16. Bydd holl staff yr ysgol yn dangos agwedd bositif tuag at unrhyw fater yn ymwneud â hil neu grefydd yn y dosbarth, ar yr iard neu gyda rhieni.

Bydd egwyddorion ADCDF yn cael eu hamlygu yn y ffyrdd canlynol:

1.Y Cwricwlwm:

- Gweithredir ar ofynion penodol Rhaglenni Astudio y CC,
- Sgiliau Allweddol / Sylfaenol,
- Manteisio ar ddigwyddiadau /dathliadau / safle / cyfleoedd lleol a byd-eang
- Safonau uchel,
- Addysgu trawsgwricwlaidd,
- Defnydd o TGCh.

2.Sgiliau:

(Mae ADCDF yn cynnig cyfleoedd arbennig i ddatblygu sgiliau sydd yn y fframwaith sgiliau, yn arbennig felly sgiliau meddwl. Mae gweithgareddau ADCDF yr ysgol yn gyfryngau addas iawn ar gyfer datblygu sgiliau penodol.

3.Yr amgylchedd a chyswllt cymunedol:

Gofalu am yr amgylchedd trwy 'stiwardiaeth' / gofal ar gyfer y dyfodol. Creu partneriaethau i hyrwyddo hyn a bod yn rhan o raglenni penodol: e.e. Grwp Gwyrdd, ail-gylchu dillad, bwyd, papur a.y.y.b.

4. Cynnwys rhanddeiliaid:

Bydd nifer o wahanol bobl yn rhan o'r broses yn blant, Cyngor Ysgol, GrwpGwyrdd (sy'n rhoi cyflwyniad blynyddol i'r Corff Llywodraethu) staff, rhieni, pentrefwyr a Llywodraethwyr yr ysgol.

5. Cysylltiadau byd eang a lleol:

Mae gennym gysylltiadau gydag ysgolion eraill yn lleol. Rhydd hyn gyfleoedd i ni edrych ar y cysyniad o ryngddibyniaeth a materion cyffredin rhwng yr ysgolion. Mae cyswllt da gyda'r AALL.

6. Adnoddau:

Byddwn yn sicrhau bod llyfrau, fideos, DVDs, adnoddau a theganau ar gael yn yr ysgol i adlewyrchu ein cymdeithas aml ddiwylliannol. Wrth archebu adnoddau, ceisiwn ystyried yr effaith ar yr amgylchedd, gan ail-gylchu ble bo modd a rhoi lle i nwyddau masnach deg pan fo'n bosibl wrth archebu adnoddau yn gyffredinol.

Deilliannau Dysgu

Nodir isod y themâu o fewn ADCDF a'r gwaith a gyflawnir i sicrhau deilliannau dysgu llwyddiannus yr yr ysgol. Gellid ei gynnwys fel atodiad.

Thema (o'r cyd-ddealltwriaeth)	Gwaith / Gweithgareddau (cyfle i ddefnyddio Atodiad 2 y Cyd-ddealltwriaeth')
Dewisiadau a phenderfyniadau	O ddydd i ddydd – ar draws y cwricwlwm ac mewn gweithgareddau arferol yr ysgol
Iechyd	Cynllun PESS, ABaCh, Gwyddoniaeth, Addysg Gorfforol, gweithgareddau Ysgol Iach
Treuliant a gwastraff	Daearyddiaeth, Gwyddoniaeth, Grwp Gwyrdd
Hunaniaeth a diwylliant	Daearyddiaeth, Addysg Grefyddol, ABaCh, Cerddoriaeth, yr ysgol yn ddyddiol
Newid yn yr hinsawdd	Daearyddiaeth, Gwyddoniaeth
Cyfoeth a thlodi	Hanes, Daearyddiaeth, Addysg Grefyddol, ABaCh,
Yr amgylchedd naturiol	Daearyddiaeth, ABaCh, o fewn yr ysgol

Cyfleoedd Allgyrsiol a Thu Allan i'r Ysgol

Cynigia'r ysgol ddarpariaeth sy'n galluogi'r disgyblion i ehangu eu dealltwriaeth o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth byd eang.

Rydym yn cymryd rhan yng nghynllun Grwp Gwyrdd, Ysgol Iach, rhan o Gynllun Masnach Deg

Mae strwythur cryf yn ei le i alluogi disgyblion i fynegi barn e.e. Cyngor Ysgol, Amser Cylch, Grwp Gwyrdd, Blychau Siarad, Holiaduron

Rydym yn cymryd rhan mewn ymgyrchoedd a blaengareddau e.e. gweithgareddau amrywiol gyda Masnach Deg a Chynladwyedd, Casglu dillad i gynllun Seren, mabwysiadau plentyn o India, caglu sbwriel gyda'r pentrefwyr, diwrnod didrydan yn yr ysgol.

Asesu, Cofnodi ac Adrodd

Caiff y gwaith sy'n ymwneud ag ADCDF o fewn pynciau ei asesu o fewn y pynciau hynny. Os yn briodol caiff peth o'r gwaith ei asesu'n ffurfiol ond bydd mwyafrif llethol y gwaith yn cael ei asesu'n anffurfiol. Rhennir unrhyw lwyddiannau arwyddocaol gyda rhieni.

Rolau a Chyfrifoldebau Arwain a Rheoli

Enwebwyd un llywodraethwr cyswllt gyda chyfrifoldeb dros Addysg Datblygiad Cynaliadwy (ADC) ac un gyda chyfrifoldeb dros Addysg Dinasyddiaeth Fyd Eang (ADF). Yr un modd, mae gan athrawes gyfrifoldeb – Mrs Joanna Thomas am Addysg Datblygiad Cynaliadwy (ADC) ac Addysg Dinasyddiaeth Fyd Eang (ADF) a bydd yn monitro'r ddarpariaeth o fewn y cwricwlwm. Cynhwysir ADCDF yn nhrefniadaeth hunan arfarnu'r ysgol.

Cydlynu

Rôl y Cydlynwyr ADCDF yw datblygu, codi ymwybyddiaeth, cefnogi a chydweithio i fonitro a hunan arfarnu'r maes. Caiff unrhyw anghenion a hyfforddiant eu hadnabod yn y CDY a'r cylch Rheoli Perfformiad.

Cydraddoldeb Hiliol a Chyfle Cyfartal

Mae holl waith ADCDF yr ysgol yn cefnogi polisiau'r ysgol yn y meysydd uchod.

Iechyd a Diogelwch

Glynwn i ofynion ac argymhellion polisi Iechyd a Diogelwch yr AALI. Gofynnir am ganiatad rhieni ar gyfer pob gweithgaredd tu allan i dir yr ysgol. (rhai lleol yn gofyn am ganiatâd unwaith ac am byth. Gwneir Asesiad Risg ar gyfer pob ymweliad yn ôl yr angen. Ceisir cyngor gan asiantaethau allanol.

Casgliad

Er ein bod yn byw mewn cymdeithas wledig, Cymreig gan mwyaf, mae'n bwysig fod ein plant yn ymwybodol o ddiwylliannau a ffordd o fyw y tu hwnt i'w milltir sgwâr. Mae dyletswydd arnom i geisio ehangu gorwelion ein digyblion a'u harfogi i fyw mewn byd sy'n mynd yn llai o hyd, a'u hannog i wrthwynebu rhagfarn ddiwylliannol ym mhob ffurf trwy eu galluogi i ddatblygu safbwynt a barn ddeallus.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____

Mae angen darllen polisiau:

- Cyfle Cyfartal
- Cydraddoldeb Hiliol
- Ymddygiad a Disgyblaeth
- Cyswllt â'r Gymuned
- Grwp Gwyrdd a Chynladwyedd
- Masnach Deg
- Addysg Bersonol a Chymdeithasol
- Saesneg fel Iaith Ychwanegol
- Ymateb i Lais y Plentyn a Deallusrwydd Emosiynol
- Ysgol Iach

ochr yn ochr â'r polisi hwn